NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Afiechyd Crohn: rheoli

3 Mai 2019

## *Afiechyd Crohn: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Mae afiechyd Crohn yn gyflwr gydol oes sy'n achosi llid mewn rhannau o'r system dreulio (yn y coluddyn bach fel arfer). Galla achosi symptomau megis dolur rhydd, poen yn yr abdomen, blinder a cholli pwysau. Fel arfer mae symptomau yn mynd ac yn dod – gallant ailymddangos cyn tawelu unwaith eto am ychydig wythnosau neu fisoedd. Ni ellir gwella afiechyd Crohn ac, felly, nod y driniaeth yw sicrhau rheolaeth dda dros symptomau er mwyn helpu pobl i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl ag afiechyd Crohn drwy sicrhau'r canlynol:

- mae meddygon yn gwybod pa driniaethau â chyffuriau sy'n gweithio orau i drin symptomau pan fyddant yn ailymddangos a sut i atal symptomau rhag ailymddangos yn y dyfodol.
- mae eich meddyg yn esbonio manteision ac anfanteision gwahanol driniaethau â chyffuriau, gan gynnwys unrhyw sgil-effeithiau, fel y gallwch chi a'ch teulu benderfynu ar yr hyn sy'n addas i chi
- mae eich meddyg yn eich cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch sut i reoli eich cyflwr rhwng achosion pan fydd symptomau yn ailymddangos.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaethau?
- Beth sy'n eich poeni fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r triniaethau gwahanol sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Sut y bydd y cyflwr a'i driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am afiechyd Crohn ar wefan y GIG.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Crohn's and Colitis UK, 0300 222 5700
- Crohn’s in Childhood Research Association (CICRA), 020 8949 6209
- IA (the ileostomy and internal pouch support group), 0800 0184 724

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae afiechyd Crohn wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3391-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.